COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

ADRODDIAD / TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

DIBEN: PENDERFYNIAD COMISIYNYDD – CYF. DLI 033

Amseru: Brys / ~~Enbyd / Arferol~~
(Nodwch y dyddiad gofynnol a pham, lle bo'n bosibl) Cytundeb yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2017/18

Teitl: Darpariaeth Cyfiawnder Adferol gan Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: e.e. Prif Ddeddfwriaeth, Gofyniad Statudol, Cyllid, Perfformiad, Cwynion ayyb. (diwygiwch fel sy'n briodol) **Comisiynu**

Crynodeb Gweithredol:

Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru wedi bod yn darparu gwasanaeth Cyfiawnder Adferol (CA) i GHTh Dyfed-Powys ers 1 Ebrill 2015. Nod y gwasanaeth yw cyflwyno cyfiawnder adferol a arweinir gan ddioddefwyr yn ystod pob cam o'r system cyfiawnder adferol. Ers 2015, mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru wedi gweithio'n agos â swyddfa'r CHTh ac asiantaethau partner er mwyn sefydlu prosesau ar gyfer sicrhau bod dioddefwyr yn llwyr ymwybodol o gysyniadau cyfiawnder adferol, y gwasanaeth a ddarperir a sut i gyfeirio. Cynhwysir taflenni gyda phob llythyr rhybudd llys a anfonir gan yr Uned Gofal Tystion ac mae tîm Goleudy'n cynnwys cyflwyniad byr i gyfiawnder adferol yn eu cyswllt ffôn cychwynnol gyda phob dioddefydd trosedd.

Ychydig iawn sy'n derbyn y gwasanaeth hwn ac mae llawer o waith eto i'w wneud gan asiantaethau partner i sicrhau bod y dewisiadau adferol gorau posibl ar gael i ddioddefwyr. Mae'r Heddlu wrthi'n paratoi ei bolisi CA a bydd gweithredu'r polisi'n cynnwys hyfforddiant ar gyfer swyddogion rheng flaen a phartneriaid lle bo hynny'n briodol. Bydd sefydlu panel dioddefwyr hefyd yn cynorthwyo partneriaid cyfiawnder troseddol o ran adnabod y gofynion gwasanaeth a'r llwybrau mwyaf priodol. Tra bod y datblygiadau hyn yn digwydd, cynigir y dylid estyn y ddarpariaeth Cyfiawnder Adferol am ddwy flynedd hyd 31 Mawrth 2019.

Noder: Yn unol â'r Daflen Benderfyniad dyddiedig 17 Mawrth 2015, lluniwyd y Cytundeb Gwasanaethau gyda phob CAC o dan Fodel Gweithredu Targed y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Medi 2013) er mwyn caniatáu i GHTh gomisiynu gwasanaethau o dan y Cytundeb yn uniongyrchol o GAC heb orfod caffael y gwasanaethau hyn drwy broses dendro cystadleuaeth agored arferol.

Argymhelliad:

Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n cymeradwyo cynnig ar gyfer estyn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth cyfredol gyda Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ar gyfer darparu cynhadledd CA am ddwy flynedd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion NOLAN ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod / Nid wyf yn cymeradwyo'r cais uchod / Nodaf y wybodaeth o fewn yr adroddiad (dileer fel y bo'n briodol).

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 7.4.2017